

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymysg dysgwyr](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee inquiry into Peer on peer sexual harassment among learners](#)

PPSH 24

Ymateb gan: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Response from: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr

Mae UCAC yn cyflwyno'r papur hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg cyn rhoi tystiolaeth lafar ar ddydd Iau, 24 Mawrth. Yn ogystal, rydym yn bwriadu cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau ar 1 Ebrill.

1. Problem ddifrifol

- 1.1. Cytunwn yn llwyr gyda dadansoddiad Estyn yn ei adroddiad thematig "'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon": Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru' (Rhagfyr 2021) fod hon yn broblem sylweddol iawn ei maint ac yn un y mae'n rhaid ei gymryd o ddifrif. Mae aflonyddu rhywiol yn effeithio'n uniongyrchol ar les dysgwyr ac yn naturiol felly ar eu gallu i ddysgu a datblygu. Mewn amrywiol ffyrdd, mae'n effeithio mewn modd dinistriol ar y gymuned ysgol gyfan.
- 1.2. Nodwn fod llawer o'r elfennau sydd wrth wraidd yr aflonyddu sy'n digwydd rhwng cyfoedion mewn ysgolion (oddi fewn a thu hwnt i leoliadau ac oriau ysgol) â'u gwreiddiau yn y gymdeithas ehangach. Mae'r mathau o ymddygiad y mae Estyn wedi'u nodi yn seiliedig ar agweddau ac ymddygiad y mae'r dysgwyr wedi'u gweld a'u clywed yn eu cartrefi a'u cymunedau, a/neu ar y cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol yn arbennig.
- 1.3. Felly nid problem ysgolion yn unig yw hon, ac nid yw ysgolion ar eu pennau eu hunain yn mynd i ddatrys y broblem. Fodd bynnag, yn yr un modd â heriau cymdeithasol ehangach eraill, mae rôl bwysig gan ysgolion i'w chwarae – rôl warchodol, wareiddiol a thrawsnewidiol. Yn ogystal, mae gan ysgolion ddyletswydd gofal i'w dysgwyr ac i'w staff.

1.4. Am y rhesymau hynny, rydym yn croesawu adroddiad Estyn ac ymchwiliad y Pwyllgor i'r mater, gyda phwyslais ar adnabod maint a natur yr her, ac ar argymhell camau cadarnhaol penodol i geisio creu cymunedau ysgol mwy diogel, gyda'r bwriad o gyfrannu at greu cymdeithas fwy diogel dros amser.

2. Ymagwedd ysgol gyfan: Ethos a diwylliant

2.1. Yn union fel y gwaith ar les a iechyd meddwl, dim ond ymagwedd ysgol gyfan fydd yn llwyddo wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn. Nid yw'n fater i arweinwyr, nac i staff bugeiliol, yn unig. Mae'n fater perthnasol, ac yn wir, yn fater o flaenoriaeth, i bob aelod o staff a phob dysgwr, yn ogystal â theuluoedd.

2.2. Mae'n ymwneud â chreu a chynnal ethos a diwylliant positif sy'n seiliedig ar barch at bawb, ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb yn rhagweithiol ym mhob agwedd o weithgarwch yr ysgol. Mae angen i bob aelod o gymuned yr ysgol ddeall nad oes unrhyw le yn niwylliant yr ysgol i fwlio nac aflonyddu o unrhyw fath, ac y caiff pob achos ei drin â'r difrifoldeb priodol. Mae angen i'r ethos a'r diwylliant anelu at sicrhau bod yr ysgol yn ofod diogel i bawb, ble all pawb fod yn hyderus yn eu hunaniaeth.

2.3. Bydd angen cefnogaeth ar ysgolion i ysgogi a chefnogi'r gwaith o sefydlu'r ethos. Mewn llawer o achosion, bydd cefnogaeth 'gyffredinol' (e.e. adnoddau, datblygiad proffesiynol) yn ddigonol. Mewn achosion eraill, ble mae angen newid diwylliant sydd wedi mynd yn broblematig, dylai bod cefnogaeth arbenigol wedi'i deilwra i'r ysgol a'r sefyllfa benodol ar gael, a hynny dros gyfnod o amser.

3. Addysg 'ffurfiol'

3.1. Yn ogystal â'r diwylliant ac ethos cyffredinol, mae angen i ysgolion sicrhau lle priodol ar draws y cwricwlwm ar gyfer ymwneud â materion perthnasol, a hynny mewn dull sensitif.

3.2. Unwaith eto, byddai cefnogaeth o ran adnoddau a datblygiad proffesiynol yn y maes hwn yn hynod o fuddiol. Ble mae'r cyfleoedd ar draws y cwricwlwm? Pa ddulliau ellir eu defnyddio (e.e. siaradwyr allanol, theatr mewn addysg, grwpiau trafod)? Sut i sicrhau bod yr ymdriniaeth yn addas a phriodol? Sut i ragweld ac osgoi peryglon, a delio gyda sefyllfaoedd anodd all godi wrth ymdrin â materion sensitif; hynny yw, sut i sicrhau gofod diogel.

3.3. Wrth reswm, rhaid i'r ymdriniaeth fod yn addas at oedran y dysgwyr, ond mae angen sylw yn ogystal at aeddfedrwydd, waeth beth yw'r oedran cronolegol. Efallai y bydd yn briodol ar adegau i gynnal sesiynau i grwpiau ar wahân e.e. bechgyn a merched, dysgwyr LGBTQ+ (neu grwpiau penodol oddi fewn i'r

categori eang ac amrywiol hwn), dysgwyr sy'n newid eu rhyw neu sy'n drawsryweddol.

3.4. Mae llawer o waith da wedi digwydd mewn ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth ynghylch trawma, gan gynnwys trawma plentyndod cynnar. Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw ymdriniaeth gwricwlaidd â materion allai fod yn 'triggers' ar gyfer profiadau mae dysgwyr (neu staff) wedi'u cael, ac efallai nad yw'r ysgol yn ymwybodol ohonyn nhw. Nid ar chwarae bach yr ymdrinnir â'r materion hyn, a dyna pam bod angen y gefnogaeth arbenigol, gref ar ysgolion i sicrhau eu bod yn barod i wynebu'r her.

4. Sut i ymateb i ddigwyddiadau ac achosion

4.1. Mae dwy agwedd, o leiaf, i sicrhau ymateb priodol i achosion o aflonyddu. Un yw sicrhau lefel o **ymwybyddiaeth** ymhlith staff a dysgwyr, a'r llall yw sicrhau bod **polisiau a phrosesau priodol** yn eu lle, ac yn cael eu gweithredu'n gywir.

4.2. Ymwybyddiaeth

- Bydd y gwaith o sefydlu a chynnal diwylliant ac ethos o barch yn rhan o'r gwaith o godi ymwybyddiaeth. Mae angen dealltwriaeth ar y cyd, ar draws y gymuned ysgol, o'r mathau o ymddygiad sy'n dod dan bennawd aflonyddu – yr hyn nad yw'n dderbyniol yng nghymuned yr ysgol, na thu hwnt, yn y gymdeithas ehangach.
- Bydd angen i bawb, yn staff ac yn ddysgwyr, wybod sut orau i ymateb os fyddant yn dyst i aflonyddu, neu'n destun aflonyddu eu hunain, er mwyn cadw'n ddiogel, osgoi gwaethygu'r sefyllfa, a sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r mater.
- Er mwyn sicrhau'r uchod, bydd datblygiad proffesiynol i holl staff yr ysgol yn hanfodol, a bydd angen sicrhau bod y negeseuon priodol yn cael eu trosglwyddo'n briodol, ac yn gyson i ddysgwyr

4.3. Polisiâu a phrosesau

- Bydd cael polisi neu bolisiau clir a chadarn yn y maes hwn yn greiddiol ar gyfer gweithredu. Fel gydag unrhyw bolisiau a phrosesau bydd angen sicrhau ymwybyddiaeth briodol ohonynt, a sicrhau y cânt eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol. Byddai angen i'r polisiâu hyn gynnwys adrannau ynghylch adrodd, cofnodi, dadansoddi, a'r cydberthynas gyda pholisiau eraill megis Polisi Diogelu/Amddiffyn Plant, Polisi Diogelwch Arlein.

- Agweddau pwysig eraill o bolisiau a phrosesau'r ysgol yw:
 - sut i ymdrin â'r sawl sydd wedi gwneud yr aflonyddu; mae'n debygol mai ymagwedd adferol (*restorative*) fyddai ei angen, yn sicr yn y lle cyntaf
 - sut i gefnogi'r sawl sydd wedi dioddef yr aflonyddu
 - sut i gefnogi staff, neu ddysgwyr eraill, sydd wedi ymwneud â'r digwyddiad/au
- Mae rôl gan Awdurdodau Lleol a/neu Lywodraeth Cymru i sicrhau polisiau enghreifftiol priodol, ac i sicrhau y cânt eu diweddarau'n gyson i adlewyrchu newidiadau yn y maes.
- Yn sicr bydd rôl i wasanaethau ehangach wrth ymdrin â'r camau yn 4.1.5. Trafodwn hynny isod.

5. Isadeiledd a gwasanaethau allanol

- 5.1.** Rhaid cydnabod sensitifrwydd a chymhlethdod sefyllfaoedd sy'n codi mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol. Tra bod modd i ysgolion ddelio gyda rhai agweddau o'r materion hyn, gyda'r cymorth a'r gefnogaeth briodol a amlinellir uchod, nid oes modd disgwyl i ysgolion ddelio â phob agwedd eu hunain. Mae rôl greiddiol i wasanaethau arbenigol allanol.
- 5.2.** Mae angen i ysgolion wybod beth yw'r gwasanaethau sydd ar gael, a phryd/sut i gyfeirio aelodau o gymuned yr ysgol atynt.
- 5.3.** Gall y rhain fod yn wasanaethau sy'n:
- helpu'r ysgol fel cymuned gyfan i sefydlu neu newid diwylliant ac ethos
 - camu mewn i weithio gydag unigolion neu grwpiau penodol o ddysgwyr, ac o bosib eu teuluoedd, os yw eu hymddygiad annerbyniol yn parhau er gwaethaf ymdrechion yr ysgol
 - rhoi cefnogaeth arbenigol i'r sawl sydd wedi dioddef aflonyddu rhywiol
 - rhoi cefnogaeth i'r sawl sydd wedi bod yn dyst i aflonyddu, neu sydd wedi bod yn rhoi cefnogaeth i ddioddefwr/wyr
- 5.4.** Mae trafodaethau diweddar ynghylch ysgolion cymunedol, a dulliau o ganoli gwasanaethau ehangach o gwmpas ysgolion yn hynod o berthnasol yn y cyddestun hwn, gan gynnwys y potensial fyddai ganddynt i gydweithio gyda theuluoedd a'r gymuned ehangach all fod mor ddylanwadol ar ddysgwyr

6. I gloi

6.1. Nid oes unrhyw amheuaeth bod aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion yn broblem ddifrifol yn ein hysgolion.

6.2. Mae cyfrifoldeb ar ysgolion i gydnabod y sefyllfa ac i'w chymryd o ddifrif.

6.3. Mae cyfrifoldeb ar y system addysg (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill), a gwasanaethau ehangach i ymateb mewn ffordd gydlynus i gefnogi ysgolion yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â materion sydd, o reidrwydd, yn sensitif ac yn gymhleth, ac sydd yn aml y tu hwnt i arbenigedd a chapasiti arferol ysgolion i ddelio â nhw.

6.4. Dylai:

- **creu cymunedau ysgol sy'n ofodau mor ddiogel a chynhaliol â phosib**
- **siapio dysgwyr fydd yn mynd allan i'r byd gydag agweddau'n seiliedig ar barch a chydraddoldeb**

fod yn nodau system-gyfan. Bydd angen llawer o gydweithio i sicrhau hynny.